

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

320 - Beirniadaeth Prosiect Gwyddoniaeth Bl 7 8 a 9

Beirniad: PRYSOR WILLIAMS

Dim ond un ymgeisydd oedd yma. Roedd yr unigolyn wedi dewis pwnc hynod o ddiddorol ac amserol - sef prosiect ar sicrwydd bwyd. Roedd wedi cysidro sut oedd modd meithrin burum surdoes i osgoi prinder burum sych. Roedd y gwaith yn deillio o brofiad y teulu yn ystod y cyfnod pandemig Covid-19, pan roedd cyflenwad sawl math o fwyd yn brin. Gwych fod profiad fel hyn wedi sbarduno gwaith i'r gystadleuaeth yma!

Roeddwn yn hoff iawn o strwythur y gwaith, gyda defnydd pwrpasol o is-deitlau yn golygu fod y gwaith yn llifo'n rhwydd. Ceir cefndir a chyd-destun pwrpasol ar y dechrau, ac yna fe geir eglurhad gwyddonol clir o dwf burum. Fel pob adroddiad gwyddonol da, roedd eglurhad digonol o'r dulliau, gan nodi'r manylion pwysig o ran tymheredd ac amodau eraill, a'r unedau, y cyfansymiau o'r ychwanegion a'r cynhwysion gwahanol i gyd. Gwelir yn y canlyniadau fod rhagfynegiad yr awdur wedi ei brofi'n gywir! Mae'r casgliadau'n synhwyrol a chlr. Da oedd y fidio i gyd-fynd a'r gwaith, er fe allai fod wedi bod ychydig yn fwy araf er mwyn gweld y manylder.

Mae ambell i wall mân o ran sillafu ac o ran y teipio ei hun. Mae'n bwysig cofio newid gosodiad 'iaith' y rhaglen i'r Gymraeg achos fydd hyn dangos camgymeriadau sillafu a hefyd mi fydd yn osgoi adeg pan mae'r rhaglen yn 'cywiro' y Gymraeg i'r Saesneg (e.e., newid 'i' yn 'l', ac ati). Mae meddalwedd hefyd ar gael i wirio iaith - maent yn hynod o dda ac mae angen eu defnyddio!

Ar y cyfan, dyma waith diddorol, ac yn sicr mae arwyddion o wyddonydd ifanc craff yma. Mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf - llongyfarchiadau!

1af - Menna Roberts